# ATODLEN 1

## YMGORFFORI SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## **RHAN 4**

## AELODAU SY'N GYFLOGEION

*Penodi*

14 Mae'r aelodau sy'n gyflogeion i gynnwys-

(a) person a benodir yn unol â pharagraff 15 ("yr aelod a benodir"), a

(b) dau berson a benodir yn unol â pharagraff 16 ("yr aelodau etholedig").

*Yr aelod a benodir*

15 (1) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol argymell person i'r aelodau anweithredol i'w benodi o dan y paragraff hwn.

(2) Rhaid i'r aelodau anweithredol—

(a) penodi'r person hwnnw, neu

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol argymell person arall (os felly bydd yr is-baragraff hwn yn gymwys dro ar ôl tro hyd nes bod rhywun wedi ei benodi'n aelod).

*Yr aelodau etholedig*

16 (1) Rhaid i SAC gynnal pleidlais o'i staff at ddiben penodi person neu bersonau, yn ôl y digwydd, o dan y paragraff hwn.

(2) Mae'r aelodau etholedig i'w penodi gan yr aelodau anweithredol yn unol â chanlyniad y bleidlais.

(3) Mae penodiad a wneir o dan y paragraff hwn i'w drin fel penodiad ar sail teilyngdod at ddibenion paragraff 2(2) (penodi aelodau SAC ar sail teilyngdod).

*Telerau penodi*

17 (1) Bydd telerau penodi yr aelodau sy'n gyflogeion yn cael eu pennu gan yr aelodau anweithredol.

(2) Caiff y telerau gynnwys trefniadau talu cydnabyddiaeth a all—

(a) gwneud darpariaeth ar gyfer lwfansau, arian rhodd a buddion eraill i dalu treuliau yr aed iddynt yn briodol ac o anghenraid gan y person yn rhinwedd ei swydd fel aelod o SAC, a

(b) cynnwys fformiwla neu fecanwaith arall ar gyfer addasu un neu fwy o'r elfennau hynny o dro i dro.

(3) Ni chaiff y trefniadau talu cydnabyddiaeth ddarparu ar gyfer talu cyflog nac ychwaith, yn ddarostyngedig i is-baragraff (5), ar gyfer pensiwn.

(4) Bydd y symiau sy'n daladwy o dan is-baragraff (2) yn cael eu talu gan SAC.

(5) Os yw aelod sy'n gyflogai ("A") yn cyfranogi o gynllun pensiwn o dan delerau cyflogaeth A gyda SAC, rhaid i'r trefniadau talu cydnabyddiaeth (heb effeithio ar barhad y gyflogaeth honno) wneud darpariaethau sy'n sicrhau bod gwasanaeth A fel aelod sy'n gyflogai i'w drin, at ddibenion y cynllun, fel petai'n wasanaeth fel cyflogai i SAC.

*Telerau penodi eraill*

18 (1) Caiff yr aelodau anweithredol bennu telerau penodi eraill ar gyfer penodiad aelod sy'n gyflogai.

(2) Caiff y telerau hynny gynnwys cyfyngiadau ar y canlynol—

(a) y swyddi (gan gynnwys swyddi y caniateir penodi personau iddynt, eu hargymell ar eu cyfer neu eu henwebu ar eu cyfer gan neu ar ran y Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol) y caiff yr aelod sy'n gyflogai eu dal tra bo'r person hwnnw yn aelod, neu wedi iddo beidio â bod yn aelod;

(b) y cytundebau a'r trefniadau eraill (gan gynnwys cytundebau a threfniadau gyda'r Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol, neu gyrff neu bersonau eraill sy'n gweithredu ar ran y Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad) y caiff yr aelod sy'n gyflogai fod yn barti iddynt tra bo'r person hwnnw yn aelod, neu wedi iddo beidio â bod yn aelod.

(3) Ond dim ond tra bod person yn aelod sy'n gyflogai, ac am uchafswm o 2 flynedd yn dechrau ar y diwrnod y mae person yn peidio â bod yn aelod sy'n gyflogai, y caniateir gorfodi'r cyfyngiadau hynny.

*Dod â phenodiad i ben*

19 Mae penodiad aelod sy'n gyflogai yn dod i ben—

(a) os yw'r telerau penodi yn darparu ei fod yn dod i ben ar ddiwedd cyfnod, ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, a

(b) beth bynnag yw'r sefyllfa, pan fo'r aelod yn peidio â bod yn gyflogai i SAC.

20 (1) Caiff aelod sy'n gyflogai ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelodau anweithredol.

(2) Bydd y penodiad yn dod i ben pan fo'r ymddiswyddiad yn cael ei dderbyn gan yr aelodau anweithredol.

21 Caiff yr aelodau anweithredol ddod â phenodiad aelod sy'n gyflogai i ben drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod os—

(a) bu'r aelod yn absennol o gyfarfodydd SAC heb ganiatâd SAC am gyfanswm o 3 mis neu fwy (dros gyfnod neu gyfnodau) mewn unrhyw gyfnod o 12 mis,

(b) yw'r aelod wedi mynd yn fethdalwr neu wedi gwneud trefniant â chredydwyr,

(c) yw ystâd yr aelod wedi ei secwestru yn yr Alban neu fod yr aelod wedi ymrwymo i gynllun trefniant dyled o dan Ran 1 o Ddeddf Trefnu ac Atafaelu Dyled (Yr Alban) 2002 fel dyledwr, neu wedi gwneud, o dan gyfraith yr Alban, gompównd neu drefniant gyda chredydwyr yr aelod neu wedi rhoi gweithred ymddiried iddynt,

(d) yw’r aelod yn anaddas i barhau oherwydd camymddygiad,

(e) yw’r aelod wedi methu â chydymffurfio â thelerau’r penodiad, neu

(f) yw’r aelod yn methu â chyflawni ei swyddogaethau fel arall, yn anaddas i’w cyflawni fel arall, neu’n anfodlon eu cyflawni fel arall.